

CYNGOR GWYNEDD

ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod:	Ionawr 29ain 2019
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Gareth Thomas Aelod Cabinet Addysg
Swyddog Cyswllt:	Dilwyn Williams, Prif Weithredwr
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679685
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad Addysg

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor, lle mae'r mesurau perfformiad arni, a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau'r Adran.
- 1.2. Byddwn yn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd Herio Perfformiad oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.
- 1.3. Erbyn hyn rydym yn gweithredu Cynllun y Cyngor 2018-23 a gafodd ei gymeradwyo yn y Cyngor Llawn mis Mawrth 2018. Yma, rwyf yn adrodd ar y cynnydd ers mis Hydref 2018 hyd at Dachwedd 2018.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

4.1. Trawsnewid y Gyfundrefn Addysg

- 4.1.1 Yn 2016 bu i ni ymgynghori ar gyfres o egwyddorion ddylai fod yn sail i unrhyw newid i'r dyfodol, a phwrpas y prosiect yma yw sefydlu cynllun i wreiddio'r egwyddorion hynny er mwyn sicrhau cyfundrefn addysg hyfyw fydd yn sicrhau fod pob plentyn yn y sir yn cael cyfle teg i ddatblygu eu potensial.
- 4.1.2 Cafodd yr egwyddorion addysg ei mabwysiadu gan y Cabinet ar 18 o Ragfyr 2018. Mae'r egwyddorion yn ystyried modelau cynaliadwy ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, ynghyd â'r modelau arweinyddiaeth ar gyfer ein hysgolion. Mae'r Egwyddorion eisoes yn cael ystyriaeth wrth wireddu prosiectau Band A a Band B

Cyswllt:
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



Ysgolion G21 a rhain bellach fydd yr egwyddorion sylfaenol y byddwn yn eu hystyried wrth ymateb i unrhyw gyfleoedd i'r dyfodol.

4.2. Cryfhau Arweinyddiaeth

4.2.1 Bydd y prosiect yma yn annog a hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion, gan ymrwymo i raglenni datblygu arweinyddiaeth sydd ar gael. Byddwn hefyd yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol gan sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r rhaglenni hyn. Mae'r prosiect hwn yn angenrheidiol ar gyfer llwyddiant y gwaith ar y prosiect Trawsnewid y Gyfundrefn Addysg.

4.2.2 Mae'r Cyngor eisoes yn cynllunio mewn cydweithrediad gyda GwE i roi trefniadau hyfforddi perthnasol ar gyfer datblygu arweinwyr y dyfodol ond yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion a nodir uchod mae yna waith sgopio pellach yn cael ei wneud i'r opsiynau a'r cyfleoedd pellach sydd angen eu llunio i gryfhau arweinyddiaeth ymhellach, gyda'r bwriad i osod ffrydiau gwaith a thargedau clir ar gyfer y prosiect.

4.3. Rhaglen Ysgolion Ganrif 21

4.3.1 Dalgylch Bangor

Bwriad y prosiect hwn yw adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor gan edrych ar roi cynllun newydd ar waith fydd yn gwella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

Ysgol y Garnedd

Cafodd penderfyniad swyddogol ei wneud ar 21ain o Dachwedd i adeiladu ysgol newydd i'r Garnedd, ac i gau ysgolion Coedmawr a Glanadda. Mae'r cais cynllunio wedi ei gymeradwyo, ac mae'r ymchwiladau tir a'r dyluniad wedi eu cwblhau. Mi fydd yr adeiladwyr ar y safle yn mis Ionawr 2019.

Ysgol y Faenol

Mae'r ymgynghoriad statudol wedi gorffen ers 30ain o Hydref, gan ddilyn gyda chyfarfod o'r Corff Llywodraethol i adrodd yn ôl ar sylwadau a dderbyniwyd. Penderfynodd y Corff i symud ymlaen i ryddhau rhybuddion statudol. Gyda chynllun amlinellol ar y dyluniad wedi'i gytuno er mwyn gallu symud ymlaen i ddylunio manwl.

4.3.2 Dalgylch y Bala

Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu 3-19 cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn, fydd yn cynnig gwasanaethau i'r gymuned leol, erbyn mis Medi 2019.

Mae'r Ysgol bellach wedi ei henwi fel Ysgol Godre'r Berwyn. Bydd y Pennaeth yn cychwyn yn ei swydd yn ystod Ionawr 2019. Ar 29ain o Dachwedd cafodd y strwythur staffio, swydd ddisgrifiadau a'r broses benodi ei chyflwyno, gyda chyfnod o ymgynghori hyd at 14eg o Ionawr. Mae amserlen ddrafft ar gyfer penodi mewn lle, a rhagwelir cynnal y cyfweiliadau yn ystod mis Chwefror. Defnyddiwyd y gwersi a ddysgwyd wrth fynd trwy'r broses yn Nolgellau er mwyn ystwythio'r drefn yn y Bala. Mae cytundeb ar gyfer deunydd y gofod cymdeithasol wedi'i lunio.

Mae'r prosiect yma yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen ac nid oes unrhyw risgiau cyllidol (cyfalaf) ar hyn o bryd.

4.3.3 Ôl -16

Gan ein bod yn cael trafferthion cael cwmni derbyniol i fedru cynnal asesiad cynhwysol ar draws y sir daethpwyd i'r casgliad bellach y bydd yn rhaid i ni wneud cryn dipyn o'r gwaith ein hunain ac felly sefydliwyd Tim mewdol i gyflawni elfennau o ofynion Cam 1 y briff sef y gwaith ymchwil pen desg. Yn wyneb yr oedi sydd wedi bod wrth geisio cael gafael ar gwmni cymwys 'rwyf wedi gofyn i'r Adran sicrhau ein bod yn rhoi'r adnoddau angenrheidiol i mewn i hyn er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach a cheisio cadw mor agos a phosibl at yr amserlen sydd gennym.

4.4 Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

4.4.1 Pwrpas y prosiect hwn yw i drawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial.

4.4.2 Mae gwedd 1 o'r gwaith o drawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad wedi ei gwblhau (sef yr ail strwythuro angenrheidiol) ond mae yna nifer o agweddau eraill sydd angen sylw yn Gwedd 2 sy'n ymwneud a'r ddeddf newydd a phriodoli hynny a'r trefniadau newydd i brosesau gwaith ar draws ein hysgolion. Mae gwaith Trawsnewid Rhanbarthol yn mynd ymlaen er mwyn gosod cyfeiriad i weithredu Deddfwriaeth ADY.

4.4.3 Lanswyd gwefan newydd ar gyfer y Gwasanaeth ADYaCh ar y 5ed o Dachwedd, www.adyach.cymru

4.5 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

4.5.1. Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau dilyniant cadarn ac adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd. Penodwyd Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd yn ystod y cyfnod, a bydd y Cydlynnydd yn darparu her a chefnogaeth i'n hysgolion uwchradd, gan sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned.

4.5.2. Mae'r holl ysgolion uwchradd wedi derbyn cefnogaeth i weithredu'r gwe iaith gyda disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yn ystod tymor yr Hydref 2018.

4.5.3 Mae pob ysgol uwchradd yn derbyn cefnogaeth i weithredu prif flaenoriaethau'r Strategaeth Iaith ac ail-ymweld a'u Cynlluniau Gweithredu unigol, gyda sylw i'r cyfrwng ar draws y Cwricwlwm. At hyn, mae Cynllun Gweithredu wedi ei lunio i gefnogi gweithlu Ysgol Friars i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

4.5.4 Drwy Gomiswn gan Lywodraeth Cymru, mae sesiynau Seicoleg Iaith: Hyfforddi'r Hyfforddwr yn cael eu peilota mewn nifer o ysgolion ar draws y rhanbarth, gan gynnwys Ysgol Bro Idris.

5. MESUR PERFFORMIAD

- 5.1. Bydd canlyniadau terfynol Haf 2018 yn cael ei cyflwyno ger bron y Pwyllgor Craffu ar 24 Ionawr 2019. Hoffwn dynnu eich sylw i gynodeb isod o lefel uchel o ganlyniadau Saesneg 2018 a'i effaith ar Wunedd.
- 5.2. Cofrestrwyd oddeutu 85% o ddisgyblion blwyddyn 11 Gwynedd ar gyfer TGAU Saesneg am y tro cyntaf a'r unig dro ym mis Mehefin 2018. Er yn gwrs llinol dwy flynedd fe ganiatawyd i ysgolion gofrestru dysgwyr yn gynnar. Yn dilyn hyn, fe gyhoeddodd cymwysterau Cymru adroddiad a nododd 'Ar ôl pwysu a mesur, credwn fod y defnydd eang parhaus o gofrestru cynnar a lluosog ar gyfer TGAU yn peri risg i fyfyrwyr a'r system, na ellir eu cyfiawnhau yn hawdd. Mae'r arfer hefyd yn golygu costau sylweddol i'r system'. Cymeradwyodd yr ysgrifennydd cabinet dros addysg yr adroddiad a bu newid i'r polisi Cenedlaethol mai ond y radd cyntaf y bydd disgybl yn ei ennill fydd yn cyfri tuag at ganlyniadau ysgol o ddangosyddion perfformio ysgol gyfan.
- 5.3. Yn sgil hyn, penderfynodd bron bob un o ysgolion Gwynedd i gofrestru disgyblion ar gyfer Saesneg unwaith, a hynny ar ddiwedd y cwrs dwy flynedd. Ond ar ddiwrnod canlyniadau Awst 2018, fe wnaeth ffin gradd C godi 20 marc o'i gymharu â marc haf 2017. Bu gostyngiad o 11.8% yn raddau A*-C disgyblion Gwynedd o'i gymharu â'r haf blaenorol. Er bod Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi adroddiad hynod dechnegol i gyfiawnhau eu prosesau, mae penaethiaid a swyddogion Gwynedd yn parhau yn anfodlon iawn ac o'r farn nad yw'r cyfiawnhad yn ddigonol.
- 5.4. Mae'r cynnydd sylweddol yn ffiniau graddau C Saesneg, beth bynnag fo'r cyfiawnhad dros hynny wedi golygu'r effaith ganlynol ar ddysgwyr a staff yng Ngwynedd:
- nifer fawr o ddysgwyr Gwynedd wedi ennill marc oedd yn uwch na'r ffiniau blaenorol ar gyfer C, ond wedi derbyn gradd D
 - gan fod marc gradd B hefyd wedi codi 10 marc, mae nifer o ddysgwyr wedi colli allan ar gymhwyster hanfodol ar gyfer mynd i ddysgu
 - dysgwyr heb gael mynediad i goleg, cyrsiau chweched dosbarth o'i dewis cyntaf a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol wedi ei effeithio gan nad oes ganddynt C mewn Saesneg
 - effaith ar 'morâl' athrawon, a'i hyder i fesur safon bellach, os ydi gradd C yn codi 20 marc mewn blwyddyn, sut maent i dargedu, rhagfynegi, cynghori a chefnogi.
 - Mae hyder arweinwyr ein hysgolion yn y sustem yn naturiol yn fregus.

5.2 . Mesurau Adran Addysg

- 5.2.1 Fel i mi adrodd ym mis Hydref, mae'r Adran Addysg yn y broses o adolygu eu holl fesurau wrth i bob adran fynd trwy broses Ffordd Gwynedd. Hefyd mae newidiadau arfaethedig i ddangosyddion cenedlaethol, felly, byddaf mewn sefyllfa i adrodd ymhellach ar y mesurau newydd a'r dangosyddion y tro nesaf.

6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

Cynlluniau 2017/18 a 2018/19 ymlaen

- 6.1. Mae elfen 2018/19 o'r Cynllun Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad bellach wedi ei wireddu gydag elfen 2019/20 ar drac i gyflawni'n amserol.

- 6.2 O safbwynt y cynllun Arbedion Ychwanegol Ysgolion, mae'r arbedion o £198,000 a £65,000 ar drac i'w cyflawni'n amserol gyda'r arbedion eisoes wedi eu hadnabod o gynlluniau ail-strwythuro ysgolion. Mewn perthynas â'r arbediad o £298,990 mae'r ysgolion eisoes yn ymwybodol o amseriad y toriad yn eu cyllidebau.
- 6.3 Mae cynllun cynyddu pris pryddau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50 wedi ei wireddu yn 2017/18 ac am cyllideb 2018/19 wedi ei addasu ar gyfer yr arbediad o £43,750. Mae rhagolygon incwm diweddaraf yn awgrymu fod yr incwm £163k yn fyr o'i darged eleni tra noder fod yna danwariant o £109k ar bryniant bwydydd.
- 6.4 Gosodwyd targed incwm o £194k ar y Cynllun Gofal Plant Cyn Ysgol ar sail y byddai 55% o rieni yn talu am y gofal. Mae rhagolygon diweddaraf yn awgrymu mai 38% o rieni sydd yn talu am y gofal yn golygu diffyg incwm o £60k.
- 6.5 **Gorwariant Cludiant**

Yn ein cyfarfod herio perfformiad cafwyd dadasnoddiaid o'r amrywol resymau pam fod yna orwariant ar y gyllideb cludiant ysgolion.

Gellid priodoli'r prif resymau fel a ganlyn:

£149,000 oherwydd cytundebau newydd yn sgil agor ysgol Hafod Lon – roedd hyn yn groes i'r tybiaeth a wnaed ar y cychwyn a bydd angen gwaith pellach i ddeall pam.

£125,000 oherwydd cytundebau newydd yn y maes ymddygiad. Nid oes cyllideb cludiant ar gyfer y maes yma ac fe fydd yn rhaid i hyn dderbyn sylw wrth edrych ar y trefniadau anghenion dysgu ychwanegol.

£73,000 oherwydd cynnydd yn unedau ABC Dolgellau a Chymerau gan fod y ddwy uned ar agor 4 diwrnod yr wythnos tra bod y ddarpariaeth flaenorol yn Eifion Wyn ar agor 5 diwrnod yr wythnos.

£69,000 oherwydd effaith ail dendro dros yr haf.

£69,000 oherwydd cytundebau newydd prif lif.

Manion oedd gweddill y gorwariant.

Un mater arall o bryder a godwyd yn ystod ein trafodaethau oedd y ffaith, wedi ni dyrchu ymhellach, nad oedd y ffigyrau a adroddwyd yn wreiddiol yn ddibynadwy. Mae yna nifer o elfennau o bosibl yn gyfrifol am hyn.

Gwelwyd hefyd fod gennym enghreifftiau penodol o deithiau drud ofnadwy sydd yn codi cwestiynau ynglyn a phwy syd yn cadw golwg ar hyn oll.

Yn y cyfarfod herio perfformiad bu i mi nodi fod angen ystyried y materion yma oll er mwyn sicrhau rheolaeth briodol ac mae'r Prif Weithredwr yn bwriadu galw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol yn lonawr er mwyn dod a'r mater i drefn.

Byddaf yn adrodd ymhellach i'r cyfarfod herio perfformiad nesaf.

7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1. Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau ynglyn a phriodoldeb

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Nodaf fod datblygiadau sylweddol ym maes Addysg sydd ag ymhlygiadau ariannol, gan gynnwys y buddsoddiad cyfalaf crybwyllir yn rhan 4.3 o'r adroddiad, a datganoli cyllidebau anghenion dysgu ychwanegol yn rhan 4.4.

Ynglŷn ag arbedion o gynyddu pris prydau ysgolion cynradd (rhan 6.3) a gofal plant cyn-ysgol (rhan 6.4), mae'n resymegol fod codi pris yn lleihau'r galw i ddechrau. Os bydd cynlluniau arbedion yr Adran yn parhau i gynhyrchu incwm annigonol, yna bydd raid ystyried camau amgen er mwyn mantoli'r gyllideb adrannol.

Mae'r gorwariant cynyddol mewn costau cludiant disgyblion (rhan 6.5 o'r adroddiad) wedi'i nodi yn f'adroddiad adolygiad cyllideb fu gerbron cyfarfod 22 Ionawr y Cabinet. Mae'n bryder fod y gorwariant yma'n parhau, a nodaf y bwriad i alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol (o'r adrannau Addysg ac Amgylchedd) er mwyn sicrhau rheolaeth briodol, ac i adrodd i gyfarfod perfformiad nesaf yr Aelod Cabinet dros Addysg.

7.2. Barn yr Aelod Lleol:

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

7.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

7.3.1 Dim i'w nodi.

Atodiadau:

Dim.

Dogfennau Cefndirol:

Dim.